**EITEM AR YR AGENDA: 8**

**PWYLLGOR ARCHWILIO**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**27ain Ionawr 2014**

**GWYBODAETH AM BENSIYNAU**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Darparu trosolwg i'r Aelodau o'r ddau gynllun pensiwn ar gyfer diffoddwyr tân sy'n cael eu gweithredu gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

## Cefndir

2 Wrth drafod yr ymrwymiadau pensiwn yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Archwilio, gofynnodd yr Aelodau am adroddiad ar bensiynau.

## Gwybodaeth

3 Mae Atodiad A yn darparu gwybodaeth am Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992 a gafodd ei gau i aelodau newydd ar 6 Ebrill 2006, a Chynllun Newydd y Diffoddwyr Tân a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2006.

## Argymhelliad

4 Gofynnir i'r Aelodau nodi'r wybodaeth.

**Y cynlluniau cyfredol**

Erbyn hyn, mae dau brif gynllun pensiwn ar gyfer diffoddwyr tân yn Nghymru a Lloegr:

- Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992 (CPDT), a ddaeth i rym ar 1 Mawrth 1992 ac a ddiwygiwyd o bryd i'w gilydd ers y dyddiad hwnnw. Cafodd ei gau i aelodau newydd ar 6 Ebrill 2006.
- Cynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân 2006 (CNPDT) a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2006.

Mae'r ddau gynllun yn gynllun â buddion wedi'u diffinio, ac yn darparu buddion pensiwn ar sail cyflog terfynol. Mae gan y cynlluniau yn Lloegr ryw 36,000 o aelodau gweithredol, ac mae dau draean ohonynt yng nghynllun 1992. £13,804 oedd y pensiwn cyfartalog a dalwyd yn 2009-10.

Dyma rai o'r prif wahaniaethau rhwng y CPDT a'r CPNDT:

- **Cymhwysedd** – Mae'r CPNDT yn un ar gyfer diffoddwyr tân cyffredin, rhai'r system RDS a rhai gwirfoddol a ymunodd â'r Gwasanaeth Tân ac Achub ar 6 Ebrill 2006 neu wedi hynny. Mae'r aelodaeth yn ehangach na'r hen gynllun, a oedd ar gyfer diffoddwyr tân cyffredin yn unig. Gallai aelodau o'r CPDT ddewis dod yn aelodau o'r CPNDT, ac yn 2006 roedd ganddynt yr opsiwn o drosglwyddo'r pensiwn a oedd wedi cronni yn y cynllun i'r cynllun newydd.

- **Oedran pensiwn arferol** – Oedran pensiwn arferol y CPNDT yw 60 mlwydd oed. Gall aelod o'r CPNDT ymddeol yn 55 mlwydd oed, yn amodol ar ostyngiad actiwaraidd yn y pensiwn a gaiff ei dalu. Hefyd, mae darpariaeth ar gyfer yr awdurdod tân ac achub i ganiatáu i ddiffoddwr tân ymddeol yn gynnar o 55 mlwydd oed ymlaen ar lai o bensiwn, gan ystyried rheolaeth ddarbodus, effeithiol ac effeithlon o'u swyddogaethau, ond yn yr achos hwnnw, yr awdurdod, yn hytrach na'r cynllun pensiwn, fyddai'n gorfod cwrdd â chost y taliad cynnar. Mae pensiynau gohiriedig yn daladwy yn 65 mlwydd oed pan fo rhywun yn gadael y gwasanaeth yn gynnar.

- 55 mlwydd oed (50 gyda 25 neu ragor o flynyddoedd o wasanaeth) yw oedran pensiwn arferol yr hen gynllun, a 60 mlwydd oed yw'r oedran pensiwn gohiriedig.

- **Cyfradd actiwaraidd** – Mae gan y cynllun newydd un cyfradd actiwaraidd, sef 1/60. Gall aelodau gronni mwy na 40 blynedd o wasanaeth pensiynadwy os ydynt yn gwasanaethu hyd at 60 mlwydd oed neu wedi hynny, a hwnnw wedi ei gapio ar 45 mlynedd o wasanaeth. – Yn y CPDT, mae'r pensiwn yn cronni ar 1/60 am bob un o'r ugain mlynedd gyntaf o wasanaeth, a 2/60 am bob un o'r deng mlynedd olaf. Mae'r gwasanaeth pensiynadwy wedi ei gyfyngu ar 40/60 (ar ôl 30 mlynedd o wasanaeth).

- **Cyfraddau cyfraniadau** – maent yn uwch yn y CPDT nag yn yr CPNDT, gan adlewyrchu gost uwch y cynllun.

- **Pensiynau partneriaid** – Mae’r cynllun newydd yn ymestyn y buddion i bartneriaid sydd wedi eu henwebu, gan gynnwys cyplau o’r un rhyw sy’n dewis peidio â bod mewn partneriaeth sifil. Yn y CPDT, mae pensiynau partneriaid yn daladwy i ŵr, gwraig neu bartner sifil byw.

**Trefniadau ariannu**

Cynlluniau sydd heb fod yn cael eu hariannu yw Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân, ac mae hynny’n golygu bod incwm cyfredol y cynllun (drwy gyfraniadau’r gweithwyr a’r cyflogwyr) yn talu am wariant y cynllun cyfredol, gyda’r gwahaniaeth yn cael ei roi gan grant gan Llywodraeth.

**Y Rhesymeg dros Newid – y costau**

Ar hyn o bryd, am bob £1 sy’n cael ei thalu i Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân gan y gweithiwr mae’r trethdalwr yn cyfrannu £5. Felly, gan ddilyn yr egwyddorion sydd yn adroddiad Hutton, mae’r llywodraeth yn ceisio cyflwyno cynllun pensiwn newydd ar gyfer yr holl ddiffoddwyr tân yn Ebrill 2015. Cynllun â’r buddion wedi’u diffinio fydd hwn hefyd, ond bydd yn seiliedig ar enillion wedi’u hadbrisio yn ôl cyfartaledd gyrfa, gyda llai o fuddion a’r oedran ymddeol yn codi i 60. Mae’r newidiadau hyn yn unol â Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 25ain Ebrill 2013.

**Cyfnod pontio**

Bydd amddiffyniadau statudol ar gyfer y cyfnod pontio i aelodau presennol cymwys.

Ni fydd neb sy’n aelodau gweithredol o gynllun ac sydd, ar 1 Ebrill 2012, â 10 mlynedd neu lai i fynd tan eu hoedran pensiwn arferol presennol, yn gweld unrhyw newid o ran pryd y cânt ymddeol nac unrhyw ostyngiad yn swm y pensiwn y byddant yn ei dderbyn yn eu hoedran pensiwn arferol cyfredol. Bydd yr aelod sy’n parhau yn ei gynllun cyfredol tan y bydd yn ymddeol, a allai fod ar ôl 31 Mawrth 2022, yn cael yr amddiffyniad hwn.

I Aelodau sydd hyd at 14 mlynedd cyn cyrraedd eu hoedran pensiwn arferol cyfredol, bydd amddiffyniad pellach am bedair blynedd, ac sy’n lleihau’n raddol, a hynny o 1 Ebrill 2012 ymlaen.

Mae Undeb yr FBU yn gwrthwynebu nifer o newidiadau yng nghynllun pensiwn newydd 2015, yn enwedig codi’r oedran pensiwn i 60 mlwydd oed, ac o ganlyniad mae mewn dadl â’r Llywodraeth ynglŷn â’r mater.